Noson y bomio

Helpu Eraill / Gofal / Meddwl am Eraill

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu bomio di – ddiwedd ar ddinas Llundain. Bob nos, o'r bron, byddai awyrennau'r gelyn yn gollwng eu bomiau ar yr adeiladau. Un o'r adeiladau i gael eu dinistrio oedd eglwys ar gyrion y ddinas. Yn digwydd bod doedd neb yn yr eglwys pan syrthiodd y bomiau. Wel.....neb? Bore drannoeth ar ôl y bomio daeth offeiriad a chriw o'r aelodau i weld yr adeilad. Roedd y bom wedi syrthio'n syth drwy'r to. Tu mewn i'r adeilad roedd llechi a cherrig ymhob man. Ynghanol y rwbel arhosodd yr offeiriad am funud neu ddau.

"Gawn ni air bach o weddi," meddai wrth y llond dwrn o aelodau oedd yno. "Yr Almaenwyr sydd wedi gwneud hyn. Gawn ni weddïo drostyn nhw?"

Roedd rhai o'r aelodau wedi rhyfeddu o glywed fod yr offeiriad am weddïo dros y gelyn. Aeth yr offeiriad ymlaen i ofyn i Dduw eu helpu i ail – adeiladu'r eglwys. Yn sydyn gofynnodd un o'r aelodau, "Ble mae'r gath?" Arhosodd pob un yn llonydd. Roedd y gath yn ffefryn gan bawb. Yn ystod y gwasanaethau yn yr eglwys byddai'r gath yn dod i mewn ac yn eistedd, bob tro, ar y set wrth ymyl y pulpud. Byddai'r offeiriad yn dweud yn aml fod y gath yn gwrando'n well na'r gynulleidfa.

Ychydig ddyddiau cyn i'r bomio ddechrau roedd y gath wedi rhoi genedigaeth i un gath fach. Roedd plant yr eglwys wedi gwirioni. Byddai'r gath yn arfer cysgu o dan y sedd wrth ochr y pulpud.

Edrychodd yr offeiriad i lawr tua'r pulpud. Roedd carreg fawr wedi syrthio arno. "Mae'n bur debyg fod y cerrig yna wedi syrthio ar y gath. Mae hi a'i chath fach wedi'i lladd mae'n bur debyg." meddai'r offeiriad â thristwch yn ei lais.

"Dowch i ni fynd i weld," meddai un o'r dynion.

"Na'n wir, fedrwch chi ddim cerdded dros y cerrig yna. Beth

petai chi'n torri'ch coes?," meddai un o'r gwragedd yn ddigon cynhyrfus.
Mynnodd y dyn ei fod am fentro. Aeth yr offeiriad gydag ef. Camodd y ddau'n ofalus dros y cerrig a'r llechi. Roedd hi'n beryglus iawn. Llithrodd y dyn wrth gamu dros y llechi miniog. Helpodd yr offeiriad ef i godi ar ei draed. Gwyliodd y gweddill gamau'r ddau. Dyma gyrraedd y pulpud.
"Sh" meddai'r offeiriad, "mae yna sŵn mewian yn dod o dan y cerrig yma." Gwrandawodd y ddau'n astud. Oedd roedd sŵn mewian. Bu'r ddau wrthi am hydoedd yn symud y cerrig a'r llechi'n ofalus iawn rhag ofn iddyn nhw wneud niwed i'r gath a'r gath fach.
"Un garreg eto" meddai'r offeiriad gan wthio'r garreg yn ofalus i'r chwith. A phwy gerddodd allan ond y gath a'r gath fach yn ei cheg.
Roedd y fam wedi gorwedd drosti a'i diogelu drwy gydol yr holl fomio arswydus y noson cynt.

Diolch i Ti O Dduw am bobl ddewr sy'n barod i fentro eu bywydau i helpu eraill. Amen.

✦ Ydych chi'n credu bod yr offeiriad yn iawn yn gweddio dros y rhai oedd wedi gwneud difrod i'r Eglwys?
✦ Fuasech chi wedi mentro dros y cerrig a'r llechi i chwilio am y gath?